Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

Coleg Nyrsio Brenhinol
Tŷ Maeth
King George V Drive East
Caerdydd
CF14 4XZ

Helen Whyley, RN, MA
Cyfarwyddwr Gweithredol, RCN Cymru

Ffôn 02920 680703
E-bost helen.whyley@rcn.org.uk

Jeremy Miles AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Dydd Mawrth 28 Ionawr 2025

Annwyl Jeremy,

Ddydd Iau 16 Ionawr, cyhoeddodd y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) adroddiad dirdynnol yn datgelu effaith ddinistriol gofal mewn coridorau ar gleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn ysbytai yng Nghymru a ledled y DU. Ymatebodd miloedd o aelodau'r RCN i arolwg byr o fewn dyddiau'n unig, ac mae'r adroddiad yn cyflwyno eu geiriau yn grai a heb eu golygu. Rwy'n atodi copi o'r adroddiad gyda'r llythyr hwn. Mae'r dystiolaeth gan nyrsys Cymru yn rhoi darlun llwm. Rwy'n dyfynnu un aelod yng Nghymru i chi:

> "Nid oeddwn yn gallu cynorthwyo claf a oedd angen gofal personol yn ddiogel a chydag urddas gan nad oedd llenni na sgriniau ar gael. Digwyddodd yn ystod shifft nos a bu'n rhaid symud y claf i'r coridor i ffwrdd o gleifion eraill. Mae'r holl staff yn gofidio nad dyma'r ffordd o drin pobl o gwbl."

Ynghyd â'r llythyr hwn, rwyf hefyd bellach yn gallu rhannu adroddiad polisi newydd RCN Cymru gyda chi ar ofal mewn coridorau, gan nodi y camau gweithredu polisi yr ydym yn eu hargymell:

Yn parhau.....

Coleg Nyrsio Brenhinol y Deyrnas Gyfunol/Royal College of Nursing of the United Kingdom
20 Cavendish Square
Lundain/London W1G 0RN
Ffôn/Telephone
+44 (0) 20 7409 3333
RCN Direct 0345 772 6100
rcn.org.uk

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Swyddfa Gogledd Cymru/ Royal College of Nursing Wales
Ty Maeth, Rhodfa Ddwyreiniol/
Brenin George V/
King George V Drive East
Caerdydd/Cardiff
CF14 4XZ

Llywydd/President
Bejoy Sebastian

Ysgrifennydd Cyffredinol a Phrif Weithredwr/ General Secretary & Chief Executive
Yr Athro/Professor Nicola Ranger

Cyfarwyddwr Gweithredol Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru/ Executive Director of RCN Wales
Helen Whyley

Noddwr/Patron
Ei Fawrhydi'r Brenin Siarl III/HM King Charles III

Mae'r RCN yn cynrychioli nrysys a nyrsio, gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn arfer a llunio polisiau iechyd

The RCN represents nurses and nursing, promotes excellence in practice and shapes health policies

INVESTORS IN PEOPLE
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Arian

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn Goleg Brenhinol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ac Undeb Llafur Cofestr Arbennig a sefydlwyd a dan Ddeddf Undebau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.

The RCN is a Royal College set up by Royal Charter and a Special Register Trade Union established under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.

1. **Sefydlu gofal a ddarperir i glaf mewn cadair am fwy na 24 awr fel "digwyddiad byth".**

2. **Cymryd mesurau i helpu i feithrin diwylliant gwasanaeth iechyd lle mae staff nyrsio yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i godi pryderon diogelwch.**

3. **Cynyddu nifer y staff uwch sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar wardiau ysbytai dros y penwythnos i alluogi cleifion i fael eu rhyddhau.**

4. **Cynyddu nifer y Nyrsys Ardal (a nyrsys â gradd meistr nyrsio cymunedol) yn ôl i lefelau 2010 ac yn uwch.**

5. **Buddsoddi mewn gofal cymdeithasol fel y gall cleifion symud i'r lle gorau ar gyfer eu gofal pan fyddant yn barod yn glinigol i adael yr ysbyty.**

6. **Dylai GIG Cymru roi saib ar y gostyngiad i welyau ysbyty. Dylid adolygu'r angen am gapasiti yn genedlaethol â chynllun clir i gynyddu capasiti gofal yn y lleoliad cywir (cymuned, ysbyty, ac ati).**

7. **Buddsoddi yn y gweithlu i ddarparu'r rhaglen Chwe nod ar gyfer gofal brys ac argyfwng.**

8. **Galluogi GIG Cymru i arallgyfeirio cleifion yn ddiogel i wasanaethau cyfagos pan fo angen.**

Mae'r adroddiad hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu yn llawn eich Rhaglen Genedlaethol, *Chwe Nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng*, ledled Cymru, a chynnwys pob Coleg Brenhinol — gan gynnwys y Coleg Nyrsio Brenhinol — yn y gwaith hwn.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Brif Weithredwyr pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru i'w hannog i weithredu ar unwaith i ddod â gofal mewn coridorau i ben.

Yn parhau.....

Coleg Nyrsio Brenhinol y Deyrnas Gyfunol/Royal College of Nursing of the United Kingdom
20 Cavendish Square
Lundain/London W1G 0RN
Ffôn/Telephone
+44 (0) 20 7409 3333
RCN Direct 0345 772 6100
rcn.org.uk

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Swyddfa Gogledd Cymru/ Royal College of Nursing Wales
Ty Maeth, Rhodfa Ddwyreiniol/
Brenin George V/
King George V Drive East
Caerdydd/Cardiff
CF14 4XZ

Llywydd/President
Bejoy Sebastian

Ysgrifennydd Cyffredinol a Phrif Weithredwr/ General Secretary & Chief Executive
Yr Athro/Professor Nicola Ranger

Cyfarwyddwr Gweithredol Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru/ Executive Director of RCN Wales
Helen Whyley

Noddwr/Patron
Ei Fawrhydi'r Brenin Siarl III/HM King Charles III

Mae'r RCN yn cynrychioli nrysys a nyrsio, gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn arfer a llunio polisiau iechyd

The RCN represents nurses and nursing, promotes excellence in practice and shapes health policies

INVESTORS IN PEOPLE
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Arian

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn Goleg Brenhinol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ac Undeb Llafur Cofestr Arbennig a sefydlwyd a dan Ddeddf Undebau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.

The RCN is a Royal College set up by Royal Charter and a Special Register Trade Union established under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.

Rwy'n eich atgoffa bod staff nyrsio wedi cymryd camau diwydiannol rhwng 2022 a 2023 i fynnu bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i'w pryderon am ddiogelwch cleifion a dyfodol y proffesiwn nyrsio. Fel rhan o'r cytundeb a ddaeth â'r streiciau hynny i ben, addawodd Llywodraeth Cymru y byddai "arfyrddio" (math o ofal coridor lle mae wardiau yn derbyn mwy o gleifion nag y mae ganddynt y staff i ofalu amdanynt yn ddiogel) yn digwydd mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, a thrwy swyddog gweithredol a enwir bob amser. Addawodd hefyd y byddai rhestr o "rhaid peidio gwneud" yn ymwneud â gofal mewn coridorau yn cael ei chreu ynghyd â pholisi cenedlaethol i fynd i'r afael â nhw. Gofynnodd yr RCN i fod yn rhan o'r gwaith hwn, ond cafodd ei wrthod, ac nid yw'r newidiadau hyn wedi eu gwireddu. Mae gofal mewn coridorau bellach wedi dod yn arferol ar draws GIG Cymru, gan beryglu urddas a diogelwch cleifion.

Mae ein hargymhellion a gyhoeddwyd yn y papur briffio heddiw yn gamau clir a chyraeddadwy a all wella tryloywder ac yn y pen draw rhoi diwedd ar ofal mewn coridorau. Rwy'n eich annog i weithredu ein hargymhellion yn ddi-oed, a gofynnaf ichi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru ar ofal mewn coridorau yn ein cyfarfod nesaf.

Yn ddiffuant,

HELEN WHYLEY, RN, MA
CYFARWYDDWR GWEITHREDOL, RCN CYMRU

Coleg Nyrsio Brenhinol y Deyrnas Gyfunol/Royal College of Nursing of the United Kingdom
20 Cavendish Square
Lundain/London W1G 0RN
Ffôn/Telephone
+44 (0) 20 7409 3333
RCN Direct 0345 772 6100
rcn.org.uk

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Swyddfa Gogledd Cymru/ Royal College of Nursing Wales
Ty Maeth, Rhodfa Ddwyreiniol/
Brenin George V/
King George V Drive East
Caerdydd/Cardiff
CF14 4XZ

Llywydd/President
Bejoy Sebastian

Ysgrifennydd Cyffredinol a Phrif Weithredwr/ General Secretary & Chief Executive
Yr Athro/Professor Nicola Ranger

Cyfarwyddwr Gweithredol Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru/ Executive Director of RCN Wales
Helen Whyley

Noddwr/Patron
Ei Fawrhydi'r Brenin Siarl III/HM King Charles III

Mae'r RCN yn cynrychioli nrysys a nyrsio, gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn arfer a llunio polisiau iechyd

The RCN represents nurses and nursing, promotes excellence in practice and shapes health policies

INVESTORS IN PEOPLE
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Arian

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn Goleg Brenhinol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ac Undeb Llafur Cofestr Arbennig a sefydlwyd a dan Ddeddf Undebau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.

The RCN is a Royal College set up by Royal Charter and a Special Register Trade Union established under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.